

Agenda – Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Marc Wyn Jones
Dyddiad: Dydd Iau, 17 Chwefror 2022	Clerc y Pwyllgor
Amser: 10.45	0300 200 6565
	SeneddHinsawdd@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (10.30–10.45)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv

Cyfarfod Cyhoeddus (10.45–12.00)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(10.45)
- 2 Fframweithiau Cyffredin Dros Dro: Ansawdd Aer, a, Chemegion a Phlaladdwyr – sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd**
(10.45–12.00) (Tudalennau 1 – 11)
Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd
Olwen Spiller, Pennaeth Ansawdd yr Amgylchedd – Llywodraeth Cymru

[Fframwaith Cyffredin Dros Dro Ansawdd Aer: Cytundeb Amlinellol y](#)

[Fframwaith a'r Concordat](#) (Saesneg yn unig)



[Fframwaith Cyffredin Dros Dro Cemegion a Phlaladdwyr: Cytundeb Amlinellol y Fframwaith a'r Concordat](#) (Saesneg yn unig)

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

3 Papurau i'w nodi

(12.00)

3.1 Fframweithiau Cyffredin

(Tudalennau 12 – 13)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â chyhoeddi Fframweithiau Cyffredin dros dro o fewn portffolio'r Gweinidog

3.2 Fframweithiau Cyffredin

(Tudalennau 14 – 17)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r wybodaeth ddiweddaraf am Fframweithiau Cyffredin

3.3 Rheoliadau Cyflyrau Ffytoiechydol (Diwygio) 2022

(Tudalennau 18 – 19)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â Rheoliadau Cyflyrau Ffytoiechydol (Diwygio) 2022

3.4 Cyfarfod COP26 y DU a Gweinyddiaeth Ddatganoledig

(Tudalen 20)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â chyfarfod COP26 y DU a Gweinyddiaeth Ddatganoledig ar 9 Chwefror 2022

3.5 Grwp Rhyng-weinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

(Tudalennau 21 – 22)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â chyfarfod y Grŵp Rhyng-weinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd ar 17 Ionawr 2022

3.6 Grŵp Rhyng-weinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalennau 23 – 24)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â chyfarfod y Grŵp Rhyng-weinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

3.7 Cysylltedd digidol

(Tudalennau 25 – 26)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched, Cymru, Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru, NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, a Chymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad at y Cadeirydd mewn perthynas â chysylltedd digidol (Saesneg yn unig)

3.8 Cysylltedd digidol

(Tudalennau 27 – 29)

Dogfennau atodol:

Gohebiaeth gan Communications Solutions Cymru (CS Cymru) mewn perthynas â chysylltedd digidol a chostau darparu band eang (Saesneg yn unig)

3.9 Adolygiad o gylchoedd gwaith ac amserlen pwyllgorau

(Tudalennau 30 – 31)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Llywydd mewn perthynas ag adolygiad y Pwyllgor Busnes o gylchoedd gwaith pwyllgorau'r Senedd ac amserlen y cyfarfodydd

- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.00)

Cyfarfod preifat (12.00–12.15)

- 5 Fframweithiau Cyffredin Dros Dro: Ansawdd Aer, a, Chemegion a Phlalladdwyr – trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MA/JJ/0453/22

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

SeneddClimate@senedd.cymru

4 Chwefror 2022

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Yn dilyn fy llythyr ar 17 Rhagfyr 2021 yn hysbysu'r Pwyllgor am gyhoeddi'r fframwaith Sylweddau Ymbelydrol, hoffwn rannu dolenni i'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith a'r Concordat a gyhoeddwyd ar gyfer pum fframwaith cyffredin pellach sy'n dod o fewn fy mhortffolio:

- [Ansawdd Aer](#)
- [Atal a Rheoli Llygredd Integredig – Datblygu a Phennu'r Technegau Gorau sydd ar Gael \(BAT\)](#)
- [Cemegion a Phlaladdwyr](#)
- [Iechyd Planhigion](#)
- [Mathau o Blanhigion a Hadau](#)

Deallaf fod y Pwyllgor wedi nodi detholiad o fframweithiau y mae'n dymuno blaenoriaethu craffu arnynt. Bydd y dogfennau a gyhoeddwyd hyd yma yn helpu yn y broses hon ac mae fy swyddogion hefyd yn barod i gynorthwyo.

Mae tri fframwaith o fewn fy mhortffolio nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyfres ddiweddaraf hon i'w cyhoeddi:

- Nwyon wedi'u Fflworeiddio a Sylweddau Sy'n Teneuo'r Osôn (F-Nwy ac ODS)
- Adnoddau a Gwastraff
- Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda llywodraethau eraill y DU i sicrhau bod y fframweithiau hyn sy'n weddill yn barod i'w cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor eto i gadarnhau pan fydd y dogfennau ar gael i'w hystyried.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 12
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd.

Yn gywir



Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Eitem 3.2

**Pwyllgor Newid Hinsawdd,
yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment,
and Infrastructure Committee**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

10 Chwefror 2022

Annwyl Julie,

Diolch am eich llythyrau, dyddiedig 17 Rhagfyr 2021 a 3 Chwefror 2022, yn tynnu sylw'r Pwyllgor at gyhoeddi'r Fframweithiau Cyffredin dros dro.

Byddwch yn ymwybodol bod llawer o'r fframweithiau dros dro sy'n weddill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn. Ni fydd yn bosibl inni graffu ar bob un o'r rhain o ystyried ein hymrwymiaidau gwaith eraill. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, rydym wedi cytuno i flaenoriaethu gwaith craffu ar y fframweithiau dros dro ar gyfer Ansawdd Aer, Cemegion a Phlalladdwyr, y System Masnachu Allyriadau, ac Adnoddau a Gwastraff.

Deallwn ei bod yn annhebygol y bydd pob un o'r pedwar fframwaith uchod yn cael ei gyhoeddi mewn pryd ar gyfer ein sesiwn graffu gyda chi ar 17 Chwefror 2022. Os felly, efallai yr hoffem drefnu sesiwn graffu ychwanegol gyda chi ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Rwyf wedi gofyn i'r tîm Clercio gysylltu â'ch swyddogion i drafod hyn, os bydd angen.

Gwyddom fod y llywodraethau wedi bod yn anelu at gwblhau'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Fframweithiau Cyffredin ym mis Mawrth 2022 yn barod at y cyfnod cyn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon. O gofio'r oedi parhaus wrth gyhoeddi rhai o'r fframweithiau dros dro, a'r angen i ddarparu digon o amser ar gyfer gwaith craffu'r pwyllgorau, rydym yn amau a oes modd cyflawni hyn. Ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru i beidio â chwblhau fframweithiau nes bod pwyllgorau wedi craffu ar y fframweithiau dros dro. *Byddai'n ddefnyddiol pe gallech gadarnhau eich bod yn parhau â'r ymrwymiad hwnnw.*

Er nad yw'r Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Sylweddau Ymbelydrol yn un yr ydym wedi'i flaenoriaethu ar gyfer gwaith craffu, mae sawl mater lle, yn ein barn ni, y byddai esboniad pellach yn fuddiol. Byddem, felly, yn ddiolchgar o gael atebion i'r cwestiynau isod.



Cyffredinol

Mae'r rhan fwyaf o'r Fframweithiau Cyffredin wedi bod ar waith dros dro ers diwedd cyfnod pontio Brexit.

1. A allwch gadarnhau a yw'r Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Sylweddau Ymbelydrol yn un o'r rhain? Os felly, pa asesiad a wnaed o ba mor effeithiol y mae wedi bod yn gweithredu?

Yn ôl yr adroddiad statudol diweddaraf ynghylch Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'r Fframweithiau Cyffredin (Rhagfyr 2021), bydd cwblhau'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn golygu bod angen ambell ddiwygiad bach i'r Fframweithiau Cyffredin i adlewyrchu rôl strwythurau newydd ym mecanweithiau'r Fframweithiau Cyffredin. Daeth yr adolygiad i ben ym mis Ionawr 2022.

2. A allwch egluro sut a phryd y caiff y Fframwaith ei ddiwygio i adlewyrchu'r broses datrys anghydfodau newydd y cytunwyd arni fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol?

Datblygu'r fframwaith dros dro

Mae Cam 2 (datblygu polisi) a Cham 3 (adolygu ac ymgynghori) o'r cynllun cyflawni Fframweithiau Cyffredin yn nodi disgwyliadau a/neu ymrwymadau mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid.

3. Pa waith a wnaed i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu'r Fframwaith? Sut y mae safbwyntiau rhanddeiliaid wedi cael eu hadlewyrchu yn y Fframwaith?

Gwneud penderfyniadau

4. I ba raddau ydych chi'n fodlon bod y Fframwaith yn rhoi cyfle priodol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd lunio cyfraith a pholisi ar gyfer Cymru yn y maes cymhwysedd datganoledig hwn?

5. A allwch egluro a fydd y Fframwaith yn effeithio ar unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisi Cymreig presennol, neu unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisi Cymreig arfaethedig, yn y maes cymhwysedd datganoledig hwn, ac os felly, sut?

Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae'r Fframwaith yn cydnabod y gellir gwneud penderfyniadau rhwng y DU a'r UE mewn cydfforymau amrywiol a sefydlir drwy eu perthynas newydd.

6. A fydd y llywodraethau datganoledig yn mynychu cyfarfodydd perthnasol ynghylch y Cytundeb Masnach a Chydweithredu?

7. Sut y bydd penderfyniadau'r DU a'r UE a wneir mewn meysydd datganoledig gan Lywodraeth y DU yn cael eu cysoni â'r ymrwymiad yn y Fframwaith i gonsensws rhwng y llywodraethau?

8. *Pa gyfleoedd y mae'r Fframwaith yn eu darparu ar gyfer mwy o gyfranogiad gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu polisi tramor y DU ar faterion datganoledig o fewn cwmpas y Fframwaith? Sut y mae hyn yn wahanol i'r trefniadau pan oedd y DU yn aelod o Euratom?*

Datrys anghydfodau

Mae'r Fframwaith yn cadw hawl pob parti i 'gytuno i anghytuno' ar faterion o ran cwmpas. Mae hefyd yn nodi y dylid oedi camau gweithredu sy'n destun anghydfod tra byddant yn cael eu datrys drwy'r mecanwaith datrys anghydfodau.

9. *Pa risgiau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi o ran y dull hwn?*

10. *Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Senedd am anghydfodau a godir drwy'r Fframwaith?*

Tryloywder ac atebolrwydd

Nid yw'r Fframwaith yn cynnwys gofyniad i'r llywodraethau roi'r wybodaeth ddiweddaraf i seneddau a rhanddeiliaid am ei weithrediad. Nid oes gofyniad ychwaith i gynnwys seneddau a rhanddeiliaid yn y broses o adolygu a diwygio'r Fframwaith.

11. *Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y Fframwaith?*

12. *Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o adolygu a diwygio'r Fframwaith?*

System rheoleiddio sylweddau ymbelydrol y DU

Yn ôl y Fframwaith, ni fydd unrhyw drefniadau i atgynhyrchu'r gofynion o ran hysbysu a chyflwyno adroddiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn profi cydymffurfiaeth a digonolrwydd mewn perthynas â'r Cyfarwyddebau perthnasol.

Mae'r Fframwaith yn mynd ymlaen i ddweud bod sicrwydd o ran effeithiolrwydd system rheoleiddio sylweddau ymbelydrol y DU yn y dyfodol yn rhan o'r trafodaethau ehangach ynghylch llywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol, yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE a Chymuned Euratom. Mae hefyd yn nodi bod llywodraethau'n ystyried opsiynau a threfniadau ar gyfer dilysu systemau'r DU yn allanol, gan nad yw cynrychiolwyr Euratom bellach yn arolygu nac yn gwirio eu heffeithiolrwydd wrth fonitro allyriadau o safleoedd niwclear.

13. *Pa drefniadau llywodraethu sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau effeithiolrwydd system rheoleiddio sylweddau ymbelydrol y DU?*



14. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau ehangach sy'n digwydd rhwng llywodraethau ynghylch llywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE ac Euratom?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb erbyn 3 Mawrth 2022.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 3.3

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddClimate@senedd.cymru

4 Chwefror 2022

Annwyl Llyr,

Ysgrifennaf i roi gwybod i'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Amodau Ffytioiechydol (Diwygio) 2022 erbyn 8 Chwefror 2022.

Rwyf wedi cael llythyr oddi wrth Victoria Prentis, AS, y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd y gofyn inni gydsynio i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn ymwneud â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Gallai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau drwy arfer ein pwerau ein hunain. Bydd y Rheoliadau yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Erthyglau 5(3), 30(1), 32(3), 37(5), 41(3), 42(3), 54(3), 72(3) a 105(6) o Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion.

Bydd y diwygiadau'n cynnwys mesurau plâu sy'n gofyn am weithredu brys ac nad yw'n frys, atal plâu planhigion rhag cael eu cyflwyno, diweddar gofynion mewnfario a symud plâu penodol a dadreoleiddio plâu nad ydynt bellach yn fygythiad i fioggiogelwch Prydain Fawr. O ganlyniad, bydd y Rheoliadau hyn yn diogelu bioddiogelwch ac yn diogelu masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd perthnasol a Rwsia drwy gyflwyno mesurau diogelu pellach ar gyfer nwyddau planhigion sydd mewn perygl. Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a disgwylir iddo gael ei osod gerbron y Senedd ar 8 Chwefror 2022 gyda dyddiad cychwyn o 2 Mawrth 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i sylwedd y gwelliannau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau i'w gweld mewn un offeryn. Credaf nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol nac ychwaith yn ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Eitem 3.4

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

9 Chwefror 2022

Annwyl Gadeiryddion,

Ysgrifennaf yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi y cynhelir cyfarfod rhithiol ar COP26 rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar 9 Chwefror. Ymddiheuraf nad wyf yn rhoi llawer o rybudd, dim ond yr wythnos hon y cadarnhawyd y cyfarfod.

Byddaf i yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflawni nodau COP26 a'r hyn sy'n digwydd cyn COP27, a gynhelir ym mis Tachwedd 2022.

Bydd y Grŵp yn cyhoeddi cyd-hysbysiad ar ôl y cyfarfod. Byddaf hefyd yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 20

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

9 Chwefror 2022

Annwyl Gadeiryddion,

Ysgrifennaf ymhellach at fy llythyr dyddiedig 14 Ionawr 2022, ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, i adrodd ar gyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd, ar 17 Ionawr 2022, ac yn gadeirydd arno. Y prif bwnc trafod oedd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU).

Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod yr oedd Michael Matheson ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Sero Net, Ynni a Thrafnidiaeth, Edwin Poots ACD, y Gweinidog Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, Greg Hands AS y DU, y Gweinidog Gwladol dros Fusnes, Ynni a Thwf Glân, a Lucy Frazer AS y DU, Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys.

Fel Awdurdod ETS y DU, trafodwyd cychwyn Mecanwaith Rheoli Costau (CCM) ETS y DU ddechrau mis Ionawr. I weld y cyd-ddatganiad gan Awdurdod ETS y DU – sydd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn aelodau ohono – ar Fecanwaith Rheoli Costau'r cynllun, cliciwch ar y ddolen isod:

<https://www.gov.uk/government/publications/uk-emissions-trading-scheme-ets-authority-cost-containment-mechanism-decisions/uk-ets-authority-statement-cost-containment-mechanism-decision-january-2022>

Pwnc trafod arall yn y cyfarfod oedd yr ymgynghoriad arfaethedig ar gynigion i ddatblygu ETS y DU. Roeddwn yn falch clywed bod swyddogion Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a phwysleisiais yr angen i gynnal yr ymgynghoriad cyn gynted â phosibl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 21

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.wales

9 Chwefror 2022

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 4 Ionawr, ac yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol, cynhaliwyd cyfarfod o Grŵp Rhyng-Weinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 31 Ionawr.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater ASA (Cadeirydd), y Gweinidog dros Sgiliau Gwyrdd, yr Economi Gylchol a Bioamrywiaeth, Llywodraeth yr Alban; Edwin Poots ACD, y Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon; a George Eustice AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth y DU. Roedd yr Arglwydd Malcom Offord, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Alban a David TC Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hefyd yn bresennol.

Yn y cyfarfod trafodwyd cais Llywodraeth yr Alban am eithriad i Ddeddf y Farchnad Fewnol ar gyfer plastigau untro, lle y pwysais ar Lywodraeth y DU i roi amserlen ar gyfer penderfyniadau ynghylch y mater hwn. Rhoddodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gyflwyniad ar eu hymgyngoriad ar gyfer eu polisïau amaethyddol yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Trafodwyd cadwyni cyflenwi a phrinder llafur o fewn sectorau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, lle yr ailadroddais fy mhryderon ynghylch prinder staff milfeddygol ac yn enwedig y rhai sydd eu hangen ar APHA ac ar gyfer archwiliadau ar y ffin ym mhorthladdoedd Cymru yn y dyfodol a hefyd Brothocol Gogledd Iwerddon, lle roeddwn yn pwysu am eglurder ynghylch a fyddai angen mesurau dros dro mewn porthladdoedd sy'n gwneud busnes ag Iwerddon neu beidio.

Roedd nifer o faterion eraill i'w trafod, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer cyhoeddi Fframweithiau Cyffredin, Adroddiad Dimpleby, cynigion Coleg Brenhinol y Milfeddygon ynghylch diwygio milfeddygol, tatws hadyd a'r Mesur Rhyddid Brexit. Bydd y ddau fframwaith a'r Mesur Rhyddid Brexit ar brif agenda cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyng-Weinidogol a fydd yn cael ei gynnal ar 21 Mawrth 2022.

Bydd neges yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU yn <https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs>.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, ac at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Dymuniadau gorau,

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



8 February 2022

Llyr Gruffydd MS
Chair
Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN

Dear Llyr Gruffydd MS

Digital connectivity in rural areas

I am contacting you on behalf of the National Federation of Women's Institutes-Wales, the Wales YFC, NFU Cymru, FUW and the CLA to highlight our joint work over the last year in relation to digital connectivity and our interest in being kept informed about the work of the Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee in this area.

In January 2021 we came together to focus on digital connectivity in response to poor connectivity issues raised by our respective members. Since then, we have undertaken 2 surveys to gather the experiences of people in Wales, held a webinar with industry experts and developed an Action Pack for our members outlining the current situation and sources of information and support available to improve connectivity.

We are pleased to note that the report 'Priorities for the 6th Senedd' states that the Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee will assess progress on digital connectivity across Wales in the next 6 months, particularly in light of the findings of our recent survey where 57% of respondents rated their broadband as 'poor' or 'moderate' and 53% felt that they had been negatively impacted by poor broadband connectivity.

Our research published in May 2021 highlighted the digital divide between urban and rural areas. Over 50% of respondents from a rural area did not feel that the internet they had access to was fast and reliable and only 36% of those had superfast broadband. In comparison, 18% of their urban counterparts had access to standard broadband and 67% had superfast broadband.


Whilst 80% of participants used their mobile phone to access the internet, just 68% of those with a smartphone had access to a 4G or 5G mobile network. 57% of respondents from a rural area described the mobile signal in their house as 'unreliable' and 49% of those from a rural area stated that their signal was 'unreliable' outdoors.

Both our surveys have highlighted a high lack of awareness of the funding and support available to businesses and households to improve their connectivity. 75% of respondents to our research published in May did not know where to access support to improve their broadband connectivity. In addition, 54% of respondents to our recent survey did not know where to access information. The next steps of our campaign will explore what we can do to help cascade information to our members and wider communities.

In relation to the Welsh Government's recent consultation to move to an online livestock recording system, 50% of farmers and landowners responded that they did not feel that their broadband was good enough, in terms of speed and reliability, to enable them to complete livestock records online. 54% told us that they would prefer to administer/manage their business both online and paper and just 29% would prefer to do so entirely online.

We hope that our research findings are of interest to you and will follow your work on assessing progress on digital connectivity with interest. Please do get in touch if we can support the work of your Committee in any way or if you would like additional information from us.

Yours sincerely



Rhian Connick
Head of NFWI-Wales

(on behalf of NFWI-Wales, Wales YFC, NFU Cymru, FUW and the CLA)



Correspondence from Communications Solutions Cymru (CS Cymru) to the Chair, Climate Change, Environment and Infrastructure Committee in relation to digital connectivity – 5 February 2022

Dear Llyr,

Our company is Communication Solutions Cymru (CS Cymru) and we are engaged in the business of advising, assisting, maintaining and installing rural broadband into individual homes and businesses.

The attached document is a recent quotation from BT of almost £200 000 for providing broadband to a constituent in the Llandbedr valley near Crickhowell. Can this be fair? We are aware of approximately 20 households, in this valley alone, that have received funding from a grant provided by the Welsh Government's Access Broadband Cymru Scheme (ABC Scheme) which has enabled them to obtain reliable fast broadband. The grant covers the cost of the equipment and the installation. Without the ABC grant these people would have either missed out or would have been quoted as per the attached example. We also know of others here who are in the process of applying for the ABC grant so there is clearly a need for the ABC Grant Scheme to remain in place ensuring that these rural homes and businesses are not simply left out. There are many other areas where this scenario is being played out which equates to thousands of constituents missing out on the opportunity of having useable fast broadband.

There is also another national grant scheme namely the Gigabit Scheme. The Gigabit Scheme provides broadband to communities which is obviously a good thing although there are frequently many constituents who don't benefit because, due to their isolated location, they have not been included in a nearby scheme. These are the very people who require the most urgent help because their current broadband speeds are usually the slowest and below 1Mbps. It is these people who are contacting us to ask for assistance in the form of faster broadband and we are currently able to assist them through your ABC Grant Scheme. Using the ABC Scheme's simple application process these constituents can have a fast and reliable broadband system up and running usually within weeks.

As good broadband provision is one of your major objectives and for the sake of your constituents, it is imperative that the ABC Scheme runs for the same duration and alongside the Gigabit Scheme. This will then serve a broad range of constituents whether they qualify for the Gigabit Scheme or not as the ABC Scheme is an excellent way to support those who don't, due to their remote locations. If the ABC Scheme were to be halted then what alternative solution would Welsh Government be able to offer to what would amount to thousands of their constituents who are not being served by the Gigabit Scheme when they look to you for answers? We look forward

to hearing from you with your response. If you have any questions or require any further information then please feel free to contact us at any time.

Yours sincerely

Andrew Hornung & Conway Staley.

Attached document:

[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]

Begin forwarded message:

From: uso-helpdesk@bt.com

Date: 14 December 2021 at 3:36:39 pm GMT

To: [REDACTED]

Cc: uso-helpdesk@bt.com

Subject: USO Request - [REDACTED]

Hello [REDACTED]

We have received the confirmation of the survey price from Openreach. Here are the figures you need to know – and a breakdown of exactly how Openreach came to this amount.

Survey cost excluding VAT: £165,597.00

Survey cost including VAT: £198,716.40

This cost is calculated as the full cost of the network build and takes into account BT's contribution. BT's contribution is based on 70% of the number of eligible premises in your network build area multiplied by £3,400*. In your case, BT's contribution is £3,400.00 based on 1 (relevant) of 1 (eligible) premises in your build area. This amount has already been deducted from the above cost.

As the designated universal service provider for the UK (except Hull), we were chosen as the most capable and efficient business to deliver universal service upgrades, but these are expensive and there are significant engineering challenges. These are broken down below:

Planning and Survey- £0.00

This is the beginning of the process; the costs relate to labour and resource for Openreach staff and planners who will survey the area and plan the best network route

Civil Engineering- £110,389.90

Whether it's digging up roads and pavements, running cables overhead and trimming trees, or negotiating permission to close roads and dig on private land, civil engineering work can increase costs

Cabling- £58,607.14

This is the cost of fibre cables and the labour costs for laying it. The cabling would go from your local exchange to the premises included in the build.

Total Cost- £168,997.00

This is the total cost of the build

BT Contribution- £3,400.00

This is the deduction to the total cost of the network build through the BT contribution USO funding entitlement

Actual Cost- £165,597.00

This is the total cost of the build, following the USO industry funding deduction

We appreciate this is a lot of money – if you decide this is too much for you to pay alone, you can share the costs with others in your area who stand to benefit from this build. Alternatively, there are other ways of getting faster broadband which could work for you such as Community Fibre Partnerships, where you can take advantage of government vouchers, or satellite broadband.

If you'd like to go ahead with the network upgrade, we'll need to take payment upfront. You can get in touch with us on 0800 783 0223. We are open Monday to Friday between 9am-5pm. This quote is valid until 14/06/2022.

If you have any further questions on these figures, or want to discuss any aspect of this quote, please give us a call on the number above, within 60 days.

Many thanks,

The BT Team

*The contribution from BT has been defined by Government and Ofcom – the industry regulator – as £3400 per premise for 70% of eligible premises in the network build area.

For each premise in a build plan above 70% that registers their interest with the USO Help Desk on 0800 783 0223 BT will contribute an additional £3,400, lowering the excess cost to pay.

**All USO quotes are valid for 6 months, however in some cases your expiry date may be shorter than this time period. This is because we want to ensure we always offer the cheapest price possible and – where available and if more cost effective – we will give you a quote which someone in your area has received before, that is already within the 6 month validity period.

Eitem 3.9

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Elin Jones AS,
y Llywydd

3 Chwefror 2022

Annwyl Lywydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr yn gofyn am adborth er mwyn llywio adolygiad y Pwyllgor Busnes o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau. Trafododd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith eich llythyr yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr a chytunwyd y dylwn ymateb fel a ganlyn.

Mae'r Senedd yn senedd fach: tua 45 o'i Haelodau sydd ar gael ar gyfer ei threfn bwyllgora. Yn anochel, bydd heriau'n codi wrth geisio dal y ddysgl yn wastad rhwng cynnal capasiti'r drefn bwyllgora a sicrhau bod aelodau'r drefn honno'n gallu cyfrannu mewn ffordd ystyrlon. Yn ddelfrydol, gallai mwy o'r bwyllgorau gyfarfod yn amlach. Fodd bynnag, byddai hyn yn tanseilio gallu'r Aelodau unigol. Mae pen draw i'r hyn y gellir ei wneud yn realistig gyda nifer bresennol yr Aelodau o'r Senedd.

Er gwaethaf y cyfyngiadau yr ydym ni a'r system yn gweithredu o danynt, rydym yn credu fel Pwyllgor ein bod wedi gallu blaenoriaethu ein gwaith i sicrhau bod y materion sy'n dod o fewn ein cylch gwaith yn cael eu hystyried yn yr amser sydd ar gael i ni.

Credwn fod yr amserlen bresennol yn cynnig rhai manteision, gan gynnwys caniatáu i'r Pwyllgor gynnal diwrnod cyfan o gyfarfodydd i wyntyllu maes polisi yn fanwl. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw pob pwyllgor yn dilyn y patrwm hwn. Rydym hefyd yn credu bod agwedd hyblyg y Pwyllgor Busnes at gyfarfodydd ychwanegol wedi bod yn gadarnhaol. Bydd angen iddo barhau i ymateb i fusnes, megis Biliau'r Senedd. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor Busnes ystyried ei ddull ar gyfer pennu terfynau amser ar gyfer y gwaith y mae'n ei gyfeirio at bwyllgorau. Dylid sicrhau bod yr amser sydd ar gael yn ystyried cyfyngiadau'r amserlen gyffredinol, megis amllder cyfarfodydd.



O ran cylchoedd gwaith y pwyllgorau, rydym yn nodi bod rhai agweddau ar gylchoedd gwaith sawl pwyllgor yn gorgyffwrdd, sy'n golygu bod risg y bydd rhai meysydd polisi yn "gwympo rhwng dwy stôl". Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried sut y gellir sicrhau bod rhaglenni gwaith pwyllgorau'n cael eu cydgyssylltu'n well, i nodi bylchau, ond hefyd i nodi synergeddau posibl. Yn yr un modd, credwn y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried sut i wreiddio cydweithio yng ngwaith Pwyllgorau'r Senedd – ar hyn o bryd, mae trefniadau ar gyfer hyn yn ad hoc ac yn llai effeithlon nag y gallent fod.

Ar y cyfan, rydym o'r farn ei bod yn rhy gynnar i gyflwyno newidiadau sylfaenol i amserlen y pwyllgorau a'u cylchoedd gwaith. Rydym newydd ddechrau'r trydydd tymor yn y Senedd hon; mae'r drefn bwyllgora wedi bod ar waith am lai na dau o'r rheini. Ar ben hynny, mae'r drefn wedi bod yn gweithio mewn byd rhithwir yn bennaf - bydd heriau newydd yn codi wrth i'r pwyllgorau newid i fformatau hybrid o gyfarfod yn fwy rheolaidd neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Peth call fyddai i'r Pwyllgor Busnes ohirio unrhyw newidiadau sylfaenol hyd nes y bydd ganddo well ddealltwriaeth o natur yr heriau hyn.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.